CBAC WJEC

# TAG UG/Uwch

0983/51

## MATHEMATEG S1
### Ystadegaeth

A.M. DYDD IAU, 31 Mai 2012

1½ awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen:

- llyfr ateb 12 tudalen;
- Llyfryn Fformiwlâu;
- cyfrifiannell;
- tablau ystadegau (Murdoch a Barnes neu Gyhoeddiadau RND/CBAC).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Rhaid dangos gwaith cyfrifo digonol er mwyn egluro'r dull **mathemategol** sy'n cael ei ddefnyddio.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Cofiwch fod angen Cymraeg da a chyflwyniad trefnus yn eich atebion.

ⓗ WJEC CBAC Cyf

JD*(S12-0983-51)

**1.** Mae'r digwyddiadau $A$ a $B$ fel bod

$$P(A) = 0{\cdot}5,\ P(B) = 0{\cdot}3.$$

*(a)* Enrhifwch $P(A \cup B)$ pan fydd

(i) $A$ a $B$ yn gydanghynhwysol (*mutually exclusive*),
(ii) $A$ a $B$ yn annibynnol. [5]

*(b)* O wybod bod $P(A \cup B) = 0{\cdot}7$, darganfyddwch werth $P(B|A)$. [3]

**2.** Mae gan yr hapnewidyn $X$ gymedr 8 ac amrywiant 2.

*(a)* Darganfyddwch werth $E(X^2)$. [2]

*(b)* O wybod bod $Y = 3X + 4$, darganfyddwch gymedr ac amrywiant $Y$. [4]

**3.** Mae 9 pêl mewn bag. Mae 1 ohonynt yn goch, 3 yn las a 5 yn wyn. Mae Angharad yn hapddewis 3 pêl o'r bag, heb eu dychwelyd. Cyfrifwch y tebygolrwydd

*(a)* na fydd yn dewis yr un bêl wyn, [2]

*(b)* y bydd yn dewis union 2 bêl wyn, [2]

*(c)* y bydd ei dewis yn cynnwys 2 bêl o'r un lliw ac 1 bêl o liw gwahanol. [3]

**4.** Mae Carwyn a Dewi yn chwarae gwyddbwyll yn erbyn ei gilydd yn rheolaidd. Pan fyddant yn chwarae yn erbyn ei gilydd, y tebygolrwydd y bydd Carwyn yn ennill yw 0·75 ac mae gemau olynol yn annibynnol ar ei gilydd.

*(a)* Un penwythnos, maent yn chwarae 10 gêm yn erbyn ei gilydd. Darganfyddwch y tebygolrwydd y bydd Carwyn yn ennill

(i) union 4 gêm,

(ii) mwy na 5 gêm. [5]

*(b)* Y tebygolrwydd y bydd gêm yn para llai nag awr yw 0·08.
Yn ystod y gwyliau, maent yn chwarae 45 gêm yn erbyn ei gilydd. Defnyddiwch frasamcan Poisson i ddarganfod y tebygolrwydd y bydd mwy na 6 o'r gemau hyn yn para llai nag awr. [3]

**5.** Mewn poblogaeth arbennig, mae 60% yn ddynion a 40% yn ferched. Mae'n hysbys bod 8% o'r dynion yn lliwddall a bod 3% o'r merched yn lliwddall. Mae aelod o'r boblogaeth yn cael ei hapddewis.

*(a)* Darganfyddwch y tebygolrwydd bod y person hwn yn lliwddall. [3]

*(b)* O wybod bod y person hwn yn lliwddall, darganfyddwch y tebygolrwydd mai merch yw'r person. [3]

**6.** Mae Siân a Tomos yn chwarae'r gêm ganlynol. Maent yn taflu dis teg bob yn ail, gan ddechrau gyda Siân, a'r enillydd yw'r cyntaf i daflu 6.

*(a)* Ysgrifennwch y tebygolrwydd bod Siân yn ennill ar ei thafliad cyntaf. [1]

*(b)* Darganfyddwch y tebygolrwydd bod Siân yn ennill ar ei hail dafliad. [2]

*(c)* Ysgrifennwch dri therm cyntaf y gyfres geometrig anfeidraidd ar gyfer y tebygolrwydd mai Siân sy'n ennill y gêm. [2]

*(ch)* Trwy hyn, darganfyddwch y tebygolrwydd mai Siân sy'n ennill y gêm. [2]

**7.** Mae Gareth yn gwerthu jariau o fêl mewn marchnad bob dydd Sadwrn. Mae'n bosibl modelu'r galw *(demand)* sydd am y jariau hyn bob dydd Sadwrn gan ddosraniad Poisson â chymedr 12.

*(a)* Darganfyddwch y tebygolrwydd y bydd y galw ar ddydd Sadwrn sydd wedi'i hapddewis

(i) union 10 jar,

(ii) yn fwy na 10 jar. [4]

*(b)* Mae Gareth am i'r tebygolrwydd y bydd yn gallu cwrdd â'r galw am ei fêl fod o leiaf 0·95. Darganfyddwch nifer minimwm y jariau sydd ei angen arno ar gyfer mynd i'r farchnad. [2]

**8.** Mae dosraniad tebygolrwydd yr hapnewidyn arwahanol $X$ wedi'i roi gan

| $x$ | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|
| $P(X = x)$ | $0{\cdot}3 - \theta$ | $2\theta$ | $0{\cdot}7 - \theta$ |

*(a)* Nodwch amrediad y gwerthoedd posibl ar gyfer y cysonyn $\theta$. [2]

*(b)* Dangoswch fod $E(X)$ yn annibynnol ar $\theta$. [2]

*(c)* Gallwch dybio yn awr mai gwyriad safonol $X$ yw 0·8.

(i) Darganfyddwch werth $\theta$.
(ii) Mae $X_1$, $X_2$ yn ddau arsylw annibynnol sydd wedi'u cymryd o ddosraniad $X$. Cyfrifwch $P(X_1 + X_2 = 6)$. [8]

**TROWCH DROSODD.**

**9.** Mae gan yr hapnewidyn di-dor $X$ y ffwythiant dwysedd tebygolrwydd $f$ sydd wedi'i roi gan

$$f(x) = \frac{1}{10}(2x + 3x^2) \qquad \text{ar gyfer } 1 \leqslant x \leqslant 2,$$

$$f(x) = 0 \qquad \text{fel arall.}$$

*(a)* (i) Darganfyddwch $E(X)$.

(ii) Dangoswch fod

$$E(X^2) = 2{\cdot}61$$

a thrwy hyn, cyfrifwch amrywiant $X$ yn gywir i ddau le degol. [8]

*(b)* (i) Darganfyddwch fynegiad ar gyfer $F(x)$, sy'n ddilys ar gyfer $1 \leqslant x \leqslant 2$, lle mae $F$ yn dynodi ffwythiant dosraniad cronnus $X$.

(ii) Darganfyddwch $P(X \leqslant 1{\cdot}4)$.

(iii) Trwy hyn, gan roi rheswm, nodwch a yw chwartel isaf $X$ yn llai na neu'n fwy nag 1·4. [7]